

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 8fed Ebrill, 2019, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)
Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Carys E. Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Michael Strain
Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir

115. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a llongyfarchodd y bobl ifanc fu'n llwyddiannus yn y Cylch a'r Sir o Eisteddfod yr Urdd. Hefyd llongyrchodd bawb a fu'n cystadlu ond heb lwyddiant y tro hwn – dymunodd yn dda iddynt i gyd.

116. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad buddiant personol gan un aelod a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol.

117. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 11eg Mawrth, 2019.

118. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

(a) Cyflwynwyd cais C19/0263/32/LL – adeiladu to newydd dros iard fferm bresennol – tir ger Graig Fael, Bryncroes.
(Datganodd Y Cyngorydd Glyn Roberts ddiddordeb yr eitem yma a gadawodd yr ystafell tra bu'r cais yn cael ei drafod. Hefyd bu iddo arwyddo'r datganiad buddiant personol).

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

119. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

(a) Yr arwydd am Eglwys St. Mair a Ffynnon Fair

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth bellach drwy e-bost gan Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol yn yr Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd, ynglyn a'r arwydd i Ffynnon Fair, fel a ganlyn:

"Gan fod yr arwydd yno i gyfarwyddo twristiaid i'r ffynnon caiff ei benodi fel arwydd twristiaeth. Yn anffodus, ni allaf fwrw ymlaen gyda'r gwaith oni bai fy mod yn cael caniatad yr Adran Economi."

Trafododd y Clarc yr e-bost gyda'r Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, ac 'roedd y ddau o'r farn mai am arwydd am yr Eglwys yn unig y gwnaed y cais gwreiddiol ond mai'r Cyngor oedd yn ystyried y byddai'n ddymunol cael arwydd

hefyd yn dynodi'r ffordd at y Ffynnon. Argymhellir felly fod y Cyngor yn symud ymlaen i osod arwydd i ddynodi'r ffordd am Eglwys St. Mair yn unig. Trafodwyd y mater ymhellach a **phenderfynwyd** symud ymlaen i gael arwydd i'r Eglwys yn unig gan mai dyma oedd cais gan aelod o'r cyhoedd.

(b) O dan y penawd hwn **penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol:

- 1) Lon o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes – mewn cyflwr difrifol a gofyn am gael ei hail-wynebu.
- 2) Y ffordd heibio Bron Philip, Botwnnog gyda thyllau dwfn ac angen sylw.
- 3) Y ffordd ym mhen lon Cefn Gaer, Botwnnog, gyda thwll dwfn ac angen sylw.

(c) **Yn y cyswllt hwn hefyd penderfynwyd** gofyn am bresenoldeb yr Heddlu yn ardal Penygroeslon gan mai ychydig o sylw gaiff y cyfyngiad cyflymdra 40 mya a cherbydau yn dal i yrru yn yr ardal.

(ch) **Nodwyd** fod y gwaith ar Bont Ysgoldy, Bryncroes, wedi ei raglennu ar gyfer mis Ebrill.

120. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

121. **AWDURDOD I DALU**

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

Llanw Llyn – hysbyseb barbio	£ 13.50
Un Llais Cymru – aelodaeth	£150.00
Yswiriant Zurich	£702.32

122. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol.

Penderfynwyd

(a) cyfrannu fel a ganlyn:

Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri	£100.00
Tenovous	£100.00
Mynwent Eglwys Mellteyrn	£150.00

(b) Peidio cyfrannu i'r canlynol:

Eisteddfod Gerddorol Llangollen
Ymddiriedolaeth Gofalwyr

(c) O berthynas i gais O Ddrws i Ddrws **penderfynwyd** gwahodd Mrs. Meinir Jones, o O Ddrws i Ddrws, i gyfarfod o'r Cyngor i egluro cefndir y cais am gyfraniad.

123. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Adroddodd y Clarc fod y ffurflenni perthnasol eisoes wedi eu derbyn o'r BDO ac mai'r dyddiad a nodwyd i anfon y ffurflen i fewn oedd 1af Gorffennaf, 2019. Adroddodd y byddai'r cyfrifon a'r dogfennau perthnasol yn cael eu hanfon yn ystod yr wythnosau nesaf i'r Archwilwyr Mewnol.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.